

# Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

Clerc / Clerk Gwenda Owen [gwenda.owen1@ntlworld.com](mailto:gwenda.owen1@ntlworld.com)  
Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ (01407 740046)

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council Meeting 7.30 y.h. / p.m. Nos Fercher / Wednesday 15.09.10

### 1. Croeso / Welcome.

2. **Presennol / Present :-** Cyng./Coun. G Browne (Cadeirydd/Chairman), Colin Torr, Mavis Swaine Williams, Neil Tuck, , *Bill Rogerson, Derek Griffith, Hazel Wilson , David Walters, Sandra Roberts*, Gwenda Owen (Clerc / Clerk)

**Ymddiheuriadau / Apologies :** Cyng./ Coun. Lynda Rycroft, Goronwy Parry,

3. **Datganiad o ddiddordeb / Declaration of interest** Dim / Nil

4 **Cofnodion cyfarfod 21.07.2010/ Minutes of the meeting 21.07.2010.**

### Cywiriadau/Amendments

6.1 Adroddiad ar Gwel y Mor – Vista Del Mar a roddwyd i Hazel Wilson. .Roedd hyn yn cadarnhau fod enw cywir y stad wedi cael ei fabwysiadu gan yr adeiladwyr a bod hyn yn cael ei adlewyrchu gan yr asiantaethau gwerthu tai./Information given to Hazel Wilson related to Gwel y Mor- Vista Del Mar. This confirmed that the estate's correct name had now been adopted by the builder and that this was reflected by the estate agents.

7.3 Clerc i holi os oedd y gwaith gafodd ei wneud eisioes ar wyneb y cloc dan warant. /Clerc was to enquire whether the work previously done on the face of the clock was under guarantee.

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir ar ol eu cywiro. / *The minutes were accepted as correct, subject to the amendments noted above* .Cynnig/Eilio HW/CT Prop/Sec.

5. **Adroddiad o weithredoedd yn ystod mis Awst. Report on the activities undertaken during August.**

Rhoddodd y clerc adroddiad ar weithredoedd Awst. 'Roedd unrhyw faterion yn codi wedi ei gosod ar agenda mis Medi. // The clerk gave a verbal report on activities during August. Any matters arising had been placed on the main agenda for September.

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

1. **Man chwarae Tan y Bryn / Play Area Tan y Bryn**

'Roedd y Cyngor Sir eisioes wedi cadarnhau y buasai y les yn cael ei adnewyddu. / The County Council had confirmed that the lease would be renewed.

2. **Tir A55 / Land A55**

Dilyn ebost i gadarnhau sylwadau'r cyngor cymuned, nid oedd y clerc wedi derbyn unrhyw ymateb. Clerc i ysgrifennu yn ffurfiol i'r Cyfreithwyr i ail-gadarnhay y

syllwadau a holi ynglyn a'r sefyllfa bresennol. / No response had been received to an email sent by the clerk, confirming the comments made by the community council. Clerk to formally write to the Solicitors to re-affirm the original comments made and enquire about the current situation. Cynnig/Eilio CT/MSW Prop/Sec

## 7. Materion Plwyfol / Parochial Matters

1. Coed dros y llwybr cerdded yn "The Wren" / Trees overhanging path at "The Wren". (DW)  
Mynegir pryder fod y coed yn "The Wren" wedi for-dyfu dros y llwybr cyhoeddus. 'Roedd yr Adran Dai a'r Adran Briffyrdd eisioes wedi dweud nad oeddynt yn gyfrifol am ei torri.  
Cynnigwyd, yn gyntaf, fod y Cyngor Cymuned yn ysgrifennu llythyr i berchnogion "The Wren", yn gofyn os oes modd iddynt nhw drefnu i dorri'r coed er mwyn diogelwch y sawl sydd yn defnyddio'r llwybr. / Concern was expressed that the trees in "The Wren" had become overgrown and were now causing problems along the public footpath. The Housing and Highways Departments had already advised that the cutting of these trees was not their responsibility. It was proposed, in the first instance, that the Community Council write to the owners of the property to ask whether they could arrange for the trees to be cut in order to ensure the safety of persons using the footpath. Cynnig/Eilio HW/MSW Prop/Sec
2. Archwiliad o gerrig beddi yn Ynys Wen / Inspection of Memorial Headstones Ynys Wen (BR & DW)  
  
'Roedd BR a DW wedi archwilio cerrig beddi yn Ynys Wen ac wedi datgan fod dwy yn rhydd. Gofynnir i'r clerch ysgrifennu at Gareth Owen yn y man cyntaf i weld os fedr o ei gwneud yn saff. Clerch hefyd i edrych os yw canllawiau Ynys Wen yn cyfeirio at y sawl sydd yn gyfrifol am sicrhau fod unrhyw garreg bedd rhydd yn cael ei diogelu. / BR and DW had inspected the memorial headstones at Ynys Wen and had confirmed that two were loose. The clerk was requested to write to Gareth Owen in the first instance to ascertain whether he could secure them. Clerk also to check whether the Cemetery Guidelines referred to whose responsibility it is to secure any loose headstones. Cynnig/Eilio DW/BR Prop/Sec
3. Cais gan Mr Walters i osod bench yn Ynys Wen er cof am ei ddiweddar deulu/ Request by Mr Walters to place a bench at Ynys Wen in memory of his late family. (DW)  
  
'Roedd DW wedi gwneud cais i osod bench yn Ynys Wen er cof am ei ddiweddar deulu. Cytunnwyd bod y cyngor cymuned yn caniatáu i'r cais. DW i drafod lle i'w gosod gyda Phwyllgor Ynys Wen. / DW had made a request to place a bench at Ynys Wen in memory of his late family. It was agreed that this request be granted. DW to discuss where to place the bench with the Ynys Wen Committee. Cynnig/Eilio HW/DW Prop/Sec.
4. Cae Mwd Fandaliaeth, torri gwair, plymwaith, eitemau ar facebook, defnydd o'r pafiliwn/parc/ Cae Mwd - Vandalism, Grass cutting, plumbing repairs, items on facebook, use of the facilities (GB,MSW)
  - 'Roedd problemau gyda fandaliaeth yn Cae Mwd, gyda chwteri yn cael ei torri, tannau yn cael eu cynnal a gwydrau a photeli yn cael ei torri. 'Roedd GB wedi ceisio gael gafael ar yr heddlu ond nid oedd wedi cael unrhyw ymateb. Cynnig fod y clerch yn ysgrifennu i Arolygwr yr Heddlu yn datgan pryder ynglyn a'r problemau oedd yn creu cost anghynladwy i'r cyngor

cymuned a hefyd i wahodd yr heddlu (nid y PCSO) i'r cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch. / There were problems with vandalism in Cae Mwd, with guttering being broken, fires being lit and glass and broken bottles. GB had attempted to contact the police but there had been no response. It was requested that the clerk write to the Inspector of Police to express concern about the problems, which were creating unsustainable costs to the community council and also to invite the police (not the PCSO) to the next meeting at 7.00 p.m.

- Mae Adran Diogelwch Cymunedol y Cyngor Sir wedi defnyddio bws Croes Goch yn y gorffennol i ddenu pobl ifanc i ymrwymo hefo y gymuned er mwyn gweithio mewn partneriaeth i geisio datrys y problemau. Cynnigwyd fod y bws yn dod ar Nos Wener i Parc Cae Mwd. /The Community Safety Team at the Community Council have, in the past, successfully used the Red Cross Bus as a means of attracting your people to engage with the community, with a view to working in partnership to resolve any problems. It was proposed that the bus be sited at Parc Cae Mwd on a Friday evening. Cynnig/Eilio HW/MSW Prop/Sec
- Safleoedd pel-droed / football pitch. 'Roedd gweddill y caeau eisiau ei torri ac roedd CT yn mynd i gael sgwrs hefo Gareth. Gofynnir i'r clerc ysgrifennu at Gareth Morris a Gareth Hughes i ofyn lle meant ati hyd yn hyn hefo torri'r safleoedd a gosod gwennwyn chwyn, a hefyd gofyn os oes ganddynt amserlen ar gyfer pob safle. / The remainder of the fields and pitches now required cutting and CT was to discuss this with Gareth. The Clerk was requested to write to Gareth Morris and Gareth Hughes to ask regarding the current state of play with regard to the cutting of the sites and putting down weedkiller and also to enquire as to whether they have a scheduled timetable for each site. Cynnig/Eilio HW/MSW Prop/Sec
- Clerc i adael i ysgrifennyddes y Clwb Pel droed wybod mae Gareth Hughes sydd yn gyfrifol am dorri'r man chwarae. / Clerk to advise the Secretary to the Football Club that Gareth Hughes is responsible for cutting the football pitch.
- 'Roedd cwynion wedi ei derbyn gan aelodau y clwb pel-droed a'r Green Gym a'r cyhoedd ynglyn a phobl yn gadael i'w cwn faeddu a ddim yn ei gasglu a rhoi yn y bin penodol. Gofynnir am arwyddion ychwanegol yn datgan na ddylai cwn gael mynd ar y manau chwarae pel droed, na cael maeddu ar safle Cae Mwd, heblaw bod eu perchnogion yn ei godi a'i roi yn y bin penodol. Clerc hefyd i ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn os oes modd i wardeiniaid cwn also yn Parc Cae Mwd yn y bore ac hwyr yn y prynhawn i wneud siwr nad yw pobl yn gadael i'w cwn faeddu yno. / Complaints had been received from members of the football pitch, Green Gem and the public that owners were allowing their dogs to foul on the football pitch and in Parc Cae Mwd generally and were not picking it up and putting it in the bin provided. It was requested that additional signs be purchased declaring that dog fouling is prohibited and owners must ensure that they use the bins provided, and that dogs are not allowed on the football pitches at any time. Clerk also requested to write to the Dog Warden to request their presence at Cae Mwd early morning and late evening to ensure that the public were not allowing their dogs to foul the area. Cynnig/Eilio BR/DW Prop/Sec.
- 'Roedd Geraint Williams wedi cysylltu a MSW i ofyn am gyfarfod cyhoeddus gyda'r cyngor ac aelodau o'r gymuned yn gyffredinol, i gael trafodaeth ar sut y gallau gefnogi plant a phobl ifanc y gymuned y ymrwymo mewn gweithgareddau fyddai o fydd i'r gymuned. Yn y man cyntaf, cytunnwyd i ysgrifennu ato unwaith 'roedd trefniadau cadarn i ddod a'r bws Croes Goch i Cae Mwd. / Geraint Williams had been in touch with MSW to request a general meeting between the community council and members of the public to discuss how he could support children and young people in the community

to engage in activities which would benefit the community. In the first instance it was agreed that the community council write to him once firm arrangements had been made to have the Red Cross bus at Cae Mwd. Cynnig/Eilio CT/DW Prop/Sec.

5. Bws / Bus Stop Penrodyn (MSW)

'Roedd damwain wedi bod wrth ymyl safle bws Penrodyn ac 'roedd pobl wedi cwyno i MSW nad oedd safle bws c yn y fan yma i bobl oedd angen dal bwn i fynd i lawr Lon Gorad a fod pobl eisioes yn disgwyl bws yn y safle ochr arall i'r ffordd ac yn croesi'r ffordd pan oedd bws yn dod. Cafwyd ei nodi nad oedd hwn yn safle bws penodol a fodd bynnag fod y ffordd yn rhy gul i osod safle yn y fan yma. Felly, cytunnwyd, er mwyn diogelu y cynhoedd, y dylai aelodau o'r cyhoedd gael ei cynghori i ddefnyddio'r safleoedd bws penodol ar hyd y ffordd. / An accident had occurred at the bus stop by Penrodyn and the public had complained to MSW that there was no bus shelter at this spot for persons wishing to travel down Gorad Road. Consequently persons waited for the bus in the shelter on the opposite side of the road and only crossed the road when the bus was within sight. It was noted that this was not a designated bus stop and that the road was too narrow in this area to have a further bus shelter. It was therefore resolved that in the interest of public safety, members of the public should be advised to adhere to using the designated bus stops along Gorad Road.

8. **Deddf Gynllunio Gwlad a Thref / Town and Country Planning -**

1. Ceisiadau / Applications

1. Caih Rhis 49C113A / App. No. 49C113A Amnewid y ffens diogelwch presennol gyda ffens "palisade" 2.4 m o uchder yn / Replace the existing security fence with a 2.4 m high palisade fence at TR Jones and Sons, Field, Street, Valley Clerc i ysgrifennu at yr Adran Gynllunio i wneud cais ei bod yn cael barn pob trigolyn fyddai yn gallu gweld y ffens o'i cartref fel rhan o'r ymgynghoriad gan mae nhw fyddai yn gorfod edrych arni hi o ddydd i ddydd. / Clerk to write to the Planning Department to request that they consult with every householder who would be able to see the fence from their home, as they are the people who will have to look at any fence on a daily basis. Cynnig/Eilio HW/DW Proposer/Sec.
2. Cais Rhif/App No. 49C120M Codi ystafell haul tu cefn i /Erection of a conservatory to the rear of 13 Garth y Felin, Valley, LL65 3FA Clerc i ysgrifennu i ddatgan dim gwrthwynebiad i'r cais cyn belled a bod y Cyngor wedi ymgynghori gyda'r cymdogion. / Clerk to write to indicate that the council had no objection to the application, subject to neighbourhood consultation. Cynnig/Eilio HW/MSW Prop/Sec

2 **Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decision**

1. Cais Rhif / App No. 49C215G Codi annedd newydd ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger / Erection of a new dwelling together with the construction of a new vehicular access on land adjacent to Plas Gwyn, Four Mile Bridge.  
Wedi ei gytuno/ Approved

9. **Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn / Anglesey County Council Correspondence**

1. **Cynllun Datblygu Lleol – Y newyddion Diweddaraf. / Local Development Plan, Latest News.** Nodwyd/Noted.
2. **Newyddlen Cynllun Datblygu Gwledig Ynys Mon / Anglesey Rural Development Plan Newsletter** Nodwyd/Noted.
3. **Crynodebau Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Ynys Mon /Isle of Anglesey Rural Development Plan Project Summaries** Nodwyd/Noted
4. **Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Polisi Drafft Cynllunio Dros Dro: Safleodd Mawr /Public Consultation on Draft Interim Planning Policy: Large Sites**  
Cyfarfod i ymateb wedi ei drefnu ar Nos Fawrth nesaf, 21.09.10. 7.00 y.h. yn y pafiliwn. / Meeting to discuss response arranged for Tuesday evening, 21.09.10 at 7.00 p.m. yn y pafiliwn. Cynnig/Eil HW/CT Prop/Sec)
5. **Cylchlythyr Cydgyfeiriant Ynys Mon / Anglesey Convergence Letter** Nodwyd/Noted
6. **Cynllun Busnes Corfforaethol 2010/11 / Corporate Business Plan 2010/11** Nodwyd/Noted
7. **Ymgynghoriad Cynllun AHNE Ynys Mon /AONB Management Plan Consultation** Nodwyd/Noted

## 10. Materion Ariannol / Financial Matters

### **Manylion Cyfrifon / Details of Accounts – Bank Balances**

**27/07/10**

Treasurer - £3447.55, Business Manager - £9691.39 Ynys Wen - £2704.63 Capital - £2061.49

(Treasurer account - un-presented cheques £2942.22, actual funds available £505.33. £3000 transferred from Business Manager Account 23.07.10)

**27/08/10**

Treasurer - £1857.73, Business Manager - £7441.39 Ynys Wen - £3314.63 Capital - £2061.49

(Treasurer account - un-presented cheques £1642, actual funds available £215.373. Precept due end August/ Beginning September:- £5166.67. £2250 transferred from Business Manager a/c 16.08.10)

Derbynwyd fel yn gywir. / Accepted as correct. Cynnig/Eil CT/HW Prop/Sec)

## 11. Taliadau wedi i'w gwneud Awst/ Payments made August

Cyflog y clerc / Clerk' salary - Gorffennaf	£314.00
Expose Media Arwyddion Ynys Wen	£769.01
Scottish Power clock	£20.48
Scottish Power Pavilion	£95.42
CCTV	£773.15
GMS (Torri llwybrau)	£41.12
G W Morris	£446.50
Rates	£38.00
Rates	£27.00
Water Ynys Wen	£21.05
Water Parc Mwd	£14.92

## Taliadau i'w gwneud Medi/ Payments to be made September

Cyflog y clerc / Clerk' salary - Awst	£314.00
Clerk Postage	£11.20
Rates	£38.00
Rates	£27.00
Rent/Lease Play Area	£25.00
Clerk (Black print cartridge)	£39.01
Slingsby Plumbing (Cae Mwd showers)	£321.63
Ysgol y Fali /Valley School (rent)	£40.00

Taliadau wedi ei cymeradwyo./ Payments approved. Cynnig/Eilio CT/HW Prop/Sec

## 12. Y Cynulliad / The Assembly

1. **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman 2009/10 / Ombudsman Annual Report 2009/10** Nodwyd/Noted
2. **Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol : Adroddiad Blynyddol 2009-10 / Local Government Partnership Scheme: Annual Report 2009-10.**

Ar gael ar/Available on

<http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/publications/?skip=1&lang=en>

Nodwyd/Noted

## 13. Gohebiaeth Amrywiol / Miscellaneous Correspondence

1. **Rhifyn Unllais Cymru /One Voice Wales Publication.** Nodwyd/Noted
2. **Unllais Cymru – Apwyntiad Lyn Cadwallader** Nodwyd/Noted
3. **Cyfarfod Blynyddol Unllais Cymru 16/09.10. Annual General Meeting** Nodwyd/Noted
4. **Atgyweiriadau i'r A55 / Essential repairs to the A55.** Nodwyd/Noted
5. **Newyddlen Ieuan Wyn Jones AC / Newsletter Ieuan Wyn Jones AM** Nodwyd/Noted
6. **Hysbyseb fod Gwefan gan yr heddlu efallai fod o ddefnydd i'r Cyngor/ Website of the North Wales Police which may be beneficial to the Community Council:**
7. <http://www.nwalespa.org/newyddion-10.aspx> Nodwyd/Noted


## 14. Unrhyw Fusnes Arall/Any Other Business

1. Calendr/Calendar Nodwyd /Noted
2. Ynys Wen - Cytunnodd y cyngor cymuned i'r clerc osod Canllawiau Ynys Wen (gyda newidiadau) a Rhestr Brisiau Ynys Wen yn y blwch arddangos sydd eisioes wedi ei osod ar y safle. HH, i gyfieithu y ddogfen i'r gymraeg, a BR i "lamination" r taflenni. /The Community Council agreed that the clerk should place the revised Cemetery Guidelines and Price List for Ynys Wen in the display box at the site. HH, to translate the document into the welsh language and BR to laminate each page.
3. Enwi a rhifo Strydoedd / Naming and numbering streets.

'Roedd llythyr wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd a Rheoli Gwastraff yn cadarnhau fod Ravenscroft Homes NW Ltd yn cynnig enw "Cwrt Coedlys" ar gyfer y datblygiad newydd tu ol i Coedlys y Fali. 'Mynegwyd y byddai "Llys Coedlys" yn fwy priodol. Clerk i ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd. / A letter had been received from the Highways and Waste Management Department, advising that Ravenscroft Homes NW Limited were proposing the name of "Cwrt Coedlys" for the new development behind Coedlys in Valley. It was resolved that "Llys Coedlys" would be more appropriate. Clerk to write to the Highways Department. Cynnig/Eil HW/MSW Prop/Sec.

4. Gwasanaeth Diwrnod Coffâd 14.11.2008 Remembrance Day (BR) – Atgoffwyd yr aelodau fod y gwasanaeth am 11.15 bore Sul a gofynnwyd i'r clerch archebu swy dorch. Trefnwyd y byddai Cyng. Swaine Williams yn mynd i nol y ddwy dorch ar fore Sul a byddai rhodd o £100 yn cael ei wneud tuag at y Royal British Legion. / Members were reminded that the service would be held at 11.15 a.m.. Clerk requested to order two wreaths. It was arranged that Councillor Swaine Williams would collect the wreaths on the Sunday morning and that a donation of £100 be made towards the Royal British Legion. Cynnig/Eil CT/BR Pro/Sec

15. **Cyfarfod Nesaf / Next meeting 20.10.2010 7.30 p.m.**



CYNGOR CYMUNEDD